


Myfyriwr yr Academi Arweinyddiaeth Gymunedol 2016/17:

Un o fyfyrwyr ym mlwyddyn gyntaf yr Academi Arweinyddiaeth Gymunedol yn ystod 2016 – 2017 oedd Steffan Rees.

Ymgeisiodd Steffan am le ar y cwrs yn y gobaith o gyflwyno a hyrwyddo cerddoriaeth Cymraeg yn Aberystwyth. Fel rhan o'i gwrs, aeth ati i drefnu a chynnal cyngerdd prynhawn Sul yn y Bandstand ar y Prom yn Aberystwyth. Bu'r digwyddiad yma yn llwyddiant gyda chynulleidfa dda a pherfformwyr dawnus.



Steffan Rees

Wrth i ni nesáu at ddiwedd 2018, dyma sydd gan Steffan i ddweud am ei gyfnod fel myfyriwr gyda'r Academi Arweinyddiaeth Gymunedol:

Gig p'nawn Sul hafaidd ar y Prom
A summery Sunday afternoon gig on the Prom

Gwilym Bowen Rhys

ac yn ei gefnogi... / and supporting him...

Meibion y Mynydd

Bandstand Aberystwyth
21/5/17 15:00

£5 £2.50
 <16

Gigs Cantre'r Gwaelod

"Mae'n falch gen i ddweud fod Gigs Cantre'r Gwaelod yn dal i fynd ac yn mynd o nerth i nerth. Trefnwyd cyngerdd prynhawn Sul yn y Bandstand ym mis Mai 2017 aeth yn llwyddiannus iawn a dyma mewn gwirionedd oedd y prawf peilot ar gyfer cychwyn cyfres o dair gig yr haf yma. Aethpwyd ati i wneud cais grant i Gyngor Tref Aberystwyth a heb gallu peilota'r syniad mae'n annhebygol y byddai Gigs Cantre'r Gwaelod wedi derbyn eu cefnogaeth. Fe werthwyd bron pob tocyn i'r gyfres eleni ac mae galw nawr i ni gynnal cyfres arall haf nesaf. Yn ogystal â hyn mae gennym sawl gig pellach wedi eu trefnu cyn diwedd y flwyddyn ac mae ein llwyddiannau yn golygu fod sefydliadau lleol yn cysylltu gyda ni i gydweithio i lwyfannu gigs neu adloniant cerddorol iddyn nhw. Mae'r dyfodol yn ddisglair felly i Gigs Cantre'r Gwaelod!"



"Rwyf dal mewn perthynas reit agos gyda Owain Schiavone fy mentor ar y prosiect ac mae'n parhau i fod yn un o ymddiriedolwyr y mudiad. Heb sesiynau addysgiadol yr Academi, y cyllid a chefnogaeth pobl fel Owain ni fyddai llwyddiannau Gigs Cantre'r Gwaelod wedi digwydd.

Diolch yn fawr i'r Academi!"